funded by

LLAIS OLDFORD

Awst/Medi 2008

Cystadleuaeth Taclusaf Oldford

Ddechrau Mehefin, lansiwyd Cystadleuaeth Taclusaf Oldford. Nod y gystadleuaeth oedd annog trigolion Ystâd Oldford i ychwanegu ychydig o liw at eu cymuned.

Daeth dros 100 o bobl i'r lansiad, ac roedd ein harbenigwr garddio lleol yn brysur iawn yn helpu pobl i ddewis planhigion ac yn eu dysgu sut i'w tyfu. Mae'r gystadleuaeth hon wedi dangos yr hyn gellir ei gyflawni beth bynnag fo maint eich gardd!

Prif Arddwr Cynorthwyol Castell Powis, David Swanten oedd beirniad y gystadleuaeth, ddydd Gwener, 1af Awst. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus dros ben gyda dros 40 o gystadleuwyr. Cafodd David amser digon anodd yn dewis y goreuon.

Dyma restr o'r enillwyr a'u gwobrwyon:

Basged Grog neu Flwch Ffenest gorau
1af - Steve Clarkson - Taleb £25.00 a thocyn teulu i Gastell Powis
2ail - Mr a Mrs Peatroy - Taleb £10.00, Pecyn creu Basged Grog a Thociwr
3ydd - Virginia Gray - Taleb £5.00 a phecyn tyfu planhigyn mewn can dŵr

Y Blwch Blodau gorau
1af - Mr a Mrs Peatroy - Taleb £25.00 a Bin Compost
2ail - Nicola Smirk - Taleb £10.00 a Phlanhigyn
3ydd - Claire Evans - Taleb £5.00 a Phecyn Tyfu Planhigyn

Yr Ardd Orau
1af - Joyce a Wendy Holder - Taleb £25.00 a Bin Compost
2ail - Sheila Wilson - Taleb £10.00 a Phâr o Ddysglau Crog
3ydd - Anne Smedley - Taleb £5.00 a Phecyn Tyfu Planhigyn

Blwch i Blant
Oedran 4 - 7
1af - Taylor Evans - Taleb £10.00 a Phecyn Garddwr Bach
2ail - CJ Ford - Taleb £5.00 a Belt Garddwr
3ydd - Lee Carter - Pecyn Clustog a Menig Garddwr

Oedran 8 - 11
1af - Jacob Powell - Taleb £10.00 a Phecyn tyfu'ch Pizza eich hunan
2ail - Evans - Taleb £5.00, Llyfr Garddio a Hadau Ffynci
3ydd - Shannon Carter - Pecyn Clustog a Menig Garddwr

Oedran 12 - 16
1af - Zoe Carter - Taleb £10.00 a Goleuadau Solar

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu—gobeithio i chi gael hwyl!
Ffoniwch ni ar 556648 i drefnu casglu'ch gwobrwyon!

Yn y rhifyn hwn:

Cystadleuaeth Taclusaf Oldford 1
Cyngor ariannol 2
Oldford Arlein 3
Diwrnod Tacluso Oldford 4
Cyhoeddiadau 5
Lluniau Cystadleuaeth Taclusaf Oldford 6

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

Thinking money

C. 'Dwi'n ystyried trefnu benthyciad, ond 'dwi'n poeni ynghylch sut fydda i'n gwybod os mae'n ddêl dda ai peidio, neu os byddaf yn gallu ei fforddio. Beth sydd angen ei ystyried?

Meddyliwch yn ofalus ynghylch pwrpas y benthyciad – byddwch yn ofalus ynghylch benthyg mwy o arian i dalu dyledion sydd gennych eisoes.
Gwnewch eich gwaith cartref; gan dreulio amser yn siopa o gwmpas ac ymchwilio i'r hyn sydd ar gael, hyd yn oed os oes angen benthyciad ar frys.
Cymharwch gyfraddau ar wefannau megis www.moneysupermarket.com neu gallwch alw mewn banciau a chymdeithasau adeiladu am daflenni i weld beth sydd ganddynt i'w gynnig.
Peidiwch ag edrych ar y taliadau misol yn unig ar gytundeb credyd – cofiwch fod angen talu'r llog ychwanegol hefyd.
Gweithiwch allan y cyfanswm fydd yn daladwy dros hyd y benthyciad (gyda rhai benthyciadau, byddwch yn talu cyfradd llog newidiol efallai).
Chwiliwch am gyfradd llog isel, ond gwyliwch rhag ffïoedd ychwanegol megis ffïoedd trefnu.

Meddyliwch ddwywaith cyn trefnu benthyciad cyfuno i reoli dyledion eraill. Er eich bod yn hoffi'r syniad o un taliad misol sy'n ymddangos yn is na'r cyfuniad o'ch dyledion, efallai y bydd gennych ddyled mwy i'w dalu yn y pen draw. Hwyrach y byddwch yn gallu trefnu talu dyledion sydd gennych eisoes dros gyfnod hirach—a hynny am lai o gost a gyda llai o risg na benthyciad newydd, trwy drafod gyda'ch credydwyr.

Gofalwch eich bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng benthyciad wedi'i warantu a benthyciad heb warant. Mae benthyciad wedi'i warantu yn cael ei ddiogelu yn erbyn eich cartref, ac os nad ydych yn gwneud y taliadau, gall eich cartref fod mewn perygl, a hynny'n ddiangen.

Mynnwch wybodaeth am ffynonellau benthyg eraill – oes undeb credyd yn eich ardal neu'ch gweithle? Os nad ydych yn sicr ynghylch pa fenthyciad i'w ddewis, gofynnwch am gyngor annibynnol. Ceir mwy o wybodaeth ar www.adviceguide.org.uk

CAB Powys 0845 6018421
Maw – Gwe 10yb – 2.30yp

FFONIWCH NI OS OES GENNYCH BROBLEM, NEU OS AM WIRFODDOLI

- Ateb y drws / ffôn
- Cynghori, Ymddiriedolwr
- Codi ymwybyddiaeth ac ati

Cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd am ddim

CAB Powys 0845 6018421
Maw – Gwe 10yb – 2.30yp

Undeb Credyd Robert Owen yn ennill Gwobr Werdd

Enillodd yr Undeb Credyd wobr £1500 yng nghynllun 'Teimlo'r Gwres' ar gyfer eu prosiect Monergy. Elusen Tlodi Tanwydd Cymru, Nea Cymru, sy'n rhedeg y cynllun gwobrwyo.

Crëwyd y prosiect Monergy gan yr Undeb Credyd mewn partneriaeth gyda Chanolfan Cyngor Bro Ddyfi. Ei nod yw uno arian a chyngor ar arbed ynni er mwyn goresgyn tlodi tanwydd. Llwyddodd yr Undeb Credyd i guro 18 o brosiectau tebyg ar draws Cymru i ennill y wobr.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Undeb Credyd Robert Owen ar 01686 623741.

Undeb Credyd Sir Drefaldwyn
Robert Owen
Montgomeryshire Credit Union

Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi yn agor Swyddfeydd Newydd

Diolch i gyllid trwy raglen Cymunedau yn Gyntaf, mae Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi wedi ailwampio'r hen siop ar Ystâd Bryn Y Gog ym Machynlleth. Torrwyd y rhuban i agor y swyddfeydd yn swyddogol gan Bennaeth y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar 3ydd Gorffennaf, ym mhresenoldeb aelodau'r Bartneriaeth, staff Cymunedau yn Gyntaf, aelodau'r gymuned a mudiadau lleol.

Mae'r sialensiau sy'n wynebu tîm staff Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn wahanol iawn i'r rhai sy'n ein hwynebu ni yma yn Oldford, gan eu bod yn gweithio mewn ardal wledig llawer ehangach sy'n cynnwys nifer o bentrefi llai. Roedd staff Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn bresennol yn y seremoni ac am ddymuno'n dda i staff Bro Ddyfi yn eu swyddfeydd newydd yn y dyfodol.

Oldford Ar-lein

Newyddion

Hyfryd oedd gweld cymaint o bobl yn y digwyddiad i Ddathlu Oldford Ar-lein ddydd Iau 24ain Gorffennaf yn Nhŷ Emerald. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Sian Parry, Cadeirydd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford, wrth agor y digwyddiad. Cafwyd arddangosfa wych o waith myfyrwyr y Cwrs Ffotograffiaeth Ddigidol a drefnir gan Oldford Ar-lein, a gwaith myfyrwyr y cwrs: Cyflwyniad i Gyfrifiaduron.

Mae Prosiect Oldford Ar-lein wedi bod yn wych — mae cymaint ohonoch bellach wedi dysgu sgiliau newydd, ac yn gallu cychwyn cyfrifiadur, teipio llythyr, anfon ebost, pori'r rhyngrwyd, neu dynnu ffotograff digidol.

Fel prosiect mae Oldford Ar-lein wedi llwyddo i gyflawni cymaint mewn 14 mis. Esiamplau yw'r canlynol…

* Prynu 5 cyfrifiadur, 8 gliniadur, 3 peiriant argraffu, 2 gamera digidol ac offer fydd yn eich galluogi i greu straeon digidol yn seiliedig ar Ystâd Oldford.
* Darparu dros 460 awr o fynediad i gyfrifiaduron trwy Glwb Gwaith Cartref, Sesiynau Mynediad Agored, Sesiynau Cwrdd â'r Llygoden, cyrsiau Cyflwyniad i Gyfrifiaduron, sesiynau i Borwyr Brith, cyrsiau ar y Rhyngrwyd ac Ebost, cyrsiau Ffotograffiaeth Ddigidol, Cwrs Hanes Teuluol, heb anghofio wrth gwrs Straeon Digidol a gwaith pontio cenedlaethau.
* Rydym wedi llwyddo i ddenu nifer anhygoel o aelodau — cyfanswm o 92.

Rydym hefyd wedi elwa o ymrwymiad y staff a'r gwirfoddolwyr — hebddyn nhw ni fyddai'r prosiect hwn wedi digwydd. Byddem yn hoffi cymryd y cyfle hwn i ddiolch i Mandy am sefydlu Oldford Ar-lein ac am weithio mor galed i sicrhau llwyddiant i'r prosiect yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Byddem hefyd yn hoffi diolch i Damien a Paddy Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Coleg Harlech a Danielle o'r Gwasanaeth Ieuenctid sydd wedi parhau â'r gwaith gwych er mwyn cyrraedd y sefyllfa bresennol. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi'n galluogi i gynnal y clwb gwaith cartref: Richard, Nicola, Hazel, Jane, Liz, Sheila a Sian.

Yn olaf, diolchwn i Gyngor Sir Powys, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ac Ysgol Babanod Oldford am fod yn bartneriaid inni, ac sydd unwaith eto wedi sicrhau llwyddiant aruthrol i'r prosiect!

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi mewn dulliau newydd yn y dyfodol, a'n gobaith yw y byddwch yn parhau fel partneriaid inni er mwyn sicrhau fod Oldford yn parhau i symud ymlaen.

LLAIS OLDFORD